

Cofnodion cyfarfod y Cabinet ar 11 Rhagfyr 2018

Yn bresennol:

- Y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC, Prif Weinidog (Cadeirydd)
 - Alun Davies AC
 - Mark Drakeford AC
 - Vaughan Gething AC
 - Lesley Griffiths AC
 - Julie James AC
 - Ken Skates AC
 - Kirsty Williams AC
 - Jeremy Miles AC
-
- Shan Morgan, Yr Ysgrifennydd Parhaol
 - Carys Evans, Prif Ysgrifennydd Preifat y Prif Weinidog
 - Peter Greening, Pennaeth Is-adran y Cabinet
 - Toby Mason, Pennaeth Cyfathrebu Strategol
 - Jo Salway, Dirprwy Gyfarwyddwr Swyddfa'r Cabinet
 - Matt Greenough, Cynghorydd Arbennig
 - Madeline Brindley, Cynghorydd Arbennig
 - Kate Edmunds, Cynghorydd Arbennig
 - Andrew Johnson, Cynghorydd Arbennig
 - Rachel Maycock, Cynghorydd Arbennig
 - Huw Price, Cynghorydd Arbennig
 - Jane Runeckles, Cynghorydd Arbennig
 - Alex Rawlin, Cynghorydd Arbennig
 - Gareth Williams, Cynghorydd Arbennig
 - Tom Woodward, Cynghorydd Arbennig
 - Christopher W Morgan, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet (cofnodion)
 - Damian Roche, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
 - Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys (eitem 4)
 - Margaret Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllidebu Strategol (eitem 4)

Eitem 1: Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol

1.1 Cymeradwyodd y Cabinet y cofnodion ar gyfer 19 a 20 Tachwedd.

Eitem 2: Eitemau'r Prif Weinidog

Brexit

2.1 Dywedodd y Prif Weinidog wrth y Cabinet ei fod wedi cael galwad ffôn oddi wrth Brif Weinidog y DU y prynhawn o'r blaen i gadarnhau y byddai'r bleidlais yn Nhŷ'r Cyffredin ar Gytundeb Llywodraeth y DU ar Ymadael yr UE yn cael ei gohirio.

Prif Weinidog Cymru yn ymddiswyddo

2.2 Atgoffodd y Prif Weinidog y Cabinet y byddai'n cyflwyno ei ymddiswyddiad i'r Frenhines y prynhawn hwnnw. Diolchodd i'w gyd-Weinidogion am eu cefnogaeth dros y naw mlynedd ddiwethaf, gan ddweud y dylai pawb fod yn falch o'r hyn a oedd wedi cael ei gyflawni yn ystod cyfnod anodd o leihad mewn cyllidebau. Llongyfarchodd y Prif Weinidog Mark Drakeford ar ddod yn arweinydd newydd y Blaid Lafur yng Nghymru, gan ddymuno'r gorau iddo ar gyfer y dyfodol.

2.3 Cofnododd aelodau'r Cabinet eu bod yn ddiolch i'r Prif Weinidog am ei arweinyddiaeth a'r cefnogaeth yr oedd wedi ei rhoi iddynt fel unigolion yn ystod ei amser yn y swydd.

Eitem 3: Busnes y Llywodraeth yn y Cyfarfod Llawn

3.1 Bu'r Cabinet yn ystyried cynnwys Grid y Cyfarfodydd Llawn, gan nodi y byddai Andrew RT Davies AC a Leanne Wood AC, fel rhai a fu'n arweinwyr pleidiau dros gyfnod hir, yn cael eu holi i weld a hoffent wneud datganiadau byr y prynhawn hwnnw, yn ychwanegol at ddatganiadau arweinwyr presennol y pleidiau, mewn ymateb i'r datganiad ymddiswyddo a fyddai'n cael ei wneud gan y Prif Weinidog. Pe byddent yn cytuno i wneud hynny, byddai'n briodol i ail aelod o'r Blaid Lafur ymateb i'r datganiad.

Eitem 4: Cyllideb Derfynol 2019 – 20

4.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y papur, a oedd yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo nifer bach o ddyraniadau ychwanegol, a nodi'r cynnydd a wnaed o ran cwblhau pecyn y Gyllideb Derfynol cyn y ddadl a oedd wedi ei hamserlennu ar gyfer 15 Ionawr.

4.2 Mewn ymateb i Gyllideb yr Hydref Canghellor y Trysorlys, roedd y Cabinet wedi cytuno ar gyfres o ddyraniadau ychwanegol ar 20 Tachwedd. Y mwyaf nodedig ohonynt oedd yr adnoddau ychwanegol ar gyfer Llywodraeth Leol a'r £26m o gyllid canlyniadol, a oedd yn ymwneud â rhyddhad ardrethi i fusnesau manwerthu yn Lloegr, a oedd yn cael ei gyfeirio tuag at ryddhad ardrethi ychwanegol yng Nghymru. Roedd hyn i gyd yn cael ei adlewyrchu yn y Gyllideb Derfynol.

4.3 Hefyd, roedd y papur yn nodi nifer bach o ddyraniadau ychwanegol. Byddai adnoddau ychwanegol yn cael eu rhoi i Cafcass Cymru i adlewyrchu'r materion a godwyd yn ystod y broses graffu ar y gyllideb. Byddai £7m o refeniw yn cael ei neilltuo ar gyfer MEG Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2019-20 er mwyn gweithredu'r trydydd cynnydd yn y terfyn cyfalaf ar gyfer codi tâl am ofal preswyl, a byddai £2m ychwanegol ar gael i adeiladu ar y pecyn o fesurau ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant, a oedd wedi eu cyhoeddi eisoes yn y gyllideb ddrafft. Byddai'r olaf yn caniatáu i'r Llywodraeth ymestyn y cynnig Mynediad at y Grant Datblygu Disgyblion y tu hwnt i'r blynnyddoedd ysgol presennol, ac i ehangu'r Cynllun Bwyd a Hwyl.

4.4 Croesawodd y Cabinet y papur, yn enwedig y cyllid ychwanegol ar gyfer Mynediad at y Grant Datblygu Disgyblion a'r Cynllun Bwyd a Hwyl. Nodwyd y byddai'r Cynllun Bwyd a Hwyl yn creu rhagor o gyfleoedd cyflogaeth i staff arlwygo a chynorthwywyr dosbarth, yn ogystal â darparu prydau o fwyd o ansawdd da i blant o gymunedau difreintiedig a gweithgareddau yn ystod gwyliau'r haf.

4.5 Cymeradwyodd y Cabinet y papur.

**Ysgrifenyddiaeth y Cabinet, Pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn
Rhagfyr 2018**